

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 30^{ain} o Fehefin 2021

Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Cod Ymddygiad
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-05-2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Adroddiad Ariannol
7. Archwyllo Mewnnol
8. Taliadau angen sylw
 - a. Scottishpower £ 32.47
 - b. D W Lewis Torri gwair Mai £ 900.00
 - c. HMRC Mehefin £ 150.00
 - d. Cyflog Mehefin £ 599.84
 - e. Diffib Pentir £1485.84
 - f. Humphries Signs £ 168.00
 - g. Humphries Signs £ 60.00
 - h. D W Lewis Torri gwair Mehefin £ 635.00
9. Ceisiadau Nawdd Hosbis Dewi Sant
10. Prosiectau
 - a. Prosiect Ysgol Y Faenol
 - b. Ymateb Gwynedd i Gamlins
 - c. Logo newydd
 - d. Septic Tanc Glasinfryn
11. I'w trafod hefyd
 - Asesu Risg
 - Cynllun Busnas

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir
Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 26^{ain} o Fai 2021
yn Rhithiol am 7.00pm.

Presennol Cyng L A James – Cadeirydd Cyng D Jones-Morris a Cyng B Jones,

Am gyflwyniad yn y rhan gyntaf o'r cyfarfod Merion Jones Clerc Cyngor Cymuned Llanrug Cyng Phillip Roberts a'r Cyng Avril Jones Cadeirydd ag Is Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug

Ymddiheuriadau Cyng J Pierce, Cyng D W Jones

Cod Ymddygiad

Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Rhodddwyd cyflwyniad i sustem gofnodi electronig sydd gan Cyngor Cymuned Llanrug oedd yn sicr yn agoriad llygaid ag o bosib y ffordd ymlaen i foderneiddio y sustem gofnodi angladdau/beddi a.y.y.b i'r dyfodol

Trafodwyd y posibiladau oedd yn bosib ei wneud i arbed amser yn ogystal ag os oedd yn angen stadudol fod cofnodi o'r fath yn cael ei ganiatau yntau os oedd angen llyfrau yn ychwanegol i'r sustem Trafodwyd y costau oedd angen ei dalu i'r Cwmni Technegol oedd yn rhoi diweddarau fel bo'r angen. Diolchwyd y swyddogion Llanrug am ei amser

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-04-2021

Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion

Dim nad oedd wedi ei gynnwys ar yr Agenda

Adroddiad Ariannol

Rhannwyd y daflen ariannol y rhithiol ar y sgrin

Yn y cyfrif Cyfredol £17,764.37 a £25,037.81 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £0.62c o log

Archwylwyr Allannol

Dim wedi ei adrodd yn ol

Argymhellwyd talu'r anfonebau a ganlyn

Yswiriant Hiscox **£1220.28** Cyflog Mai **£599.84** Treth Incwm Mis Mai **£150.00**

Torri Gwair Ebrill **£685.00** Costau storio yn Neuadd Rhiwlas **£240.00**

Beth Horocks Dylunydd y Logo **£250.00**

Argymhell trosglwyddo £10K o'r Cyfrif Cyfredol i'r Cyfrif Cadw fel sydd wedi ei wneud ers 2 flynedd i ddarparu ar gyfer gwaith ychwanegol yn y Ganolfan newydd

Ceisiadau Nawdd Llythyr/Cais wedi ei dderbyn o Ty Gobaith ond dim mantolen arian o unrhyw fath Gan fod derbyn mantolen ariannol yn orfodol gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ol a'r Elusen i holi

Prosiectau

- I. **Prosiect Ysgol Y Faenol** Cyng L A James yn adrodd fod ymholiad wedi ei wneud ynglyn a chyfrifoldeb llnau'r gaolfan. Bydd angen trefnu cyfarfod arbennig gydag eraill i drafod manylion am y math yma o wasanaethau hynny yn y misoedd nesaf
- II. **Gamlins** – angen sicrhau fod prydles newydd yn ei lle mor fuan a phosib
- III. **Septic Tanc Glasinfryn** Cyfarfod safle wedi digwydd a chynlluniau wedi eu derbyn Wedi derbyn tecst gan berchennog The Old School Barn yn cyfeirio at ei bwriad i ymuno a'i bibell garffosiaeth oedd o wedi ei osod
- IV. Logo Cyng L A James samplau wedi eu dewis ag am fynd yn ol i gadarnhau pa samplau oedd yn mynd i ag ar le

Trafodwyd hefyd

- Cysgodfan Nant y Mownt Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Contractwr gan ddarganfod nad oedd bellach yn ymwneud a gosod Cysgodfannau oherwydd y Covid
- **Clerc angen cael gafael ar contractwr arall**

- Asesu Risg
Dim diweddariad ond angen ail-ddosbarthu'r gofrestr i bawb gan y bydd angen ei adolygu ar gyfer y Flwyddyn ariannol 2021-22 a chael gwirfoddolwyr i edrych ar rai elfennau o'r gofrestr ac argymhell pa gamau gweithredu sydd ei angen i leihau y risgiau hynny oedd wedi eu adnabod

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10